## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 10 Hydref 2006

## Cynigion a Gyflwynwyd ar 3 Hydref 2006

**NDM3230 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

**NDM3231 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

**NDM3232 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Prif Weinidog holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006, ac eithrio cymeradwyo trefn gwyno'r Comisiynydd dan adran 20(4) Deddf 2006 a'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

*Gellir canfod copi o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060030_en.pdf*

**NDM3233 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) (Cychwyn) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

**NDM3234 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Hydref 2006 ynghylch gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) (Cychwyn) 2006 , a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) (Cychwyn) 2006 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

**NDM3229 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â

Rheol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y gorchymyn, The Closures Guidance (Railway Services in England and Wales) Order 2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Hydref 2006.

*Mae priodoldeb y Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol ynghylch y Gorchymyn hwn yn y Swyddfa Gyflwyno a'i e-bostio at aelodau'r Cynulliad ar 3 Hydref 2006.*

**NDM3235 Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 6.6 (v):

Yn nodi adroddiad ar drafodaethau'r Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ynghylch ymgynghori Defra ar Fesur Morol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

## Cynnig a gyflwynwyd ar 29 Medi 2006

**NDM3228 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

To propose that the National Assembly for Wales adopts the draft 2007/8 budget for the Assembly Parliamentary Service and the National Assembly for Wales Commission, as specified in table 1 of the "*Assembly Parliamentary Service and the National Assembly for Wales Commission – Budget for the Year Ending 31st March 2008*", laid before the Assembly on 29th September 2006.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mabwysiadu cyllideb ddrafft 2007/8 ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y nodwyd yn nhabl 1 "*Assembly Parliamentary Service and the National Assembly for Wales Commission – Budget for the Year Ending 31st March 2008*" (Saesneg yn unig), a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 29 Medi 2006.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 05 Hydref 2006

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau isod i gynigion:

**NDM3233**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes gofyn i Lywodraeth y DU ymateb yn ffurfiol i sylwadau gan y Comisiynydd ynghylch materion nad ydynt wedi'u datganoli.